OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1614 (Cy. 338)

# Y DRETH DIRLENWI, CYMRU

## Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

*Cymeradwywyd gan Senedd Cymru*

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 9.57 a.m. ar 21 Rhagfyr 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *am 5.00 p.m. ar 21 Rhagfyr 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(3) a (6), 46(4) a 94(1) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2021.

### Cymhwyso

**2.** Mae’r Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas â gwarediad trethadwy (o fewn ystyr Rhan 2 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017) a wneir ar 1 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.

### Cyfraddau’r dreth gwarediadau tirlenwi

**3.** Rhagnodir y cyfraddau a ganlyn yn unol ag adrannau 14(3) a (6), a 46(4) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 yn y drefn honno—

(a) y gyfradd safonol yw £96.70 y dunnell;

(b) y gyfradd is yw £3.10 y dunnell; ac

(c) y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yw £145.05 y dunnell.

(**1**) 2017 dccc 3.

**Diwygio Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020**

**4.** Yn rheoliad 2 o Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020(**2**), ar ôl "neu ar ôl hynny" mewnosoder "ond cyn 1 Ebrill 2021".

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

Am 9.57 a.m. ar 21 Rhagfyr 2020

(**2**) O.S. 2020/95 (Cy. 16).

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r gyfradd safonol, y gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi sydd i'w chodi ar warediadau trethadwy (o fewn ystyr Rhan 2 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017) a wneir ar 1 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.

Y gyfradd safonol yw £96.70 y dunnell, y gyfradd is yw £3.10 y dunnell a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yw £145.05 y dunnell.

Bydd gwarediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2020 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Ebrill 2021 yn parhau'n ddarostyngedig i'r cyfraddau a osodir gan Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/95 (Cy. 16)) o ganlyniad i'r diwygiad a wneir gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.